# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Mawrth 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.00– 9.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Gwaith craffu blynyddol ar y BBC

(09.30–11.00) (Tudalennau 1 - 11)

Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC

Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru Wales

Elan Closs Stephens, Aelod Anweithredol dros Gymru ar Fwrdd y BBC

## 3 Papur(au) i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

(Tudalen 12)

### 3.2 Gohebiaeth â'r Gweinidog Addysg ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021–22

(Tudalennau 13 - 17)

### 3.3 Gohebiaeth â'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

(Tudalennau 18 - 25)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

**5 Gwaith craffu blynyddol ar y BBC: trafod y dystiolaeth**

(11.00-11.10)

**6 Ymchwiliad i ddatganoli darlledu: trafod yr adroddiad drafft**

(11:10-11:25) (Tudalennau 26 - 66)

**7 Ymchwiliad i bwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus: trafod yr adroddiad drafft**

(11.25-12.10) (Tudalennau 67 - 102)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bethan Sayed AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

24 Chwefror 2021

Annwyl Bethan,

Rwyf heddiw'n cyhoeddi '**Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040'**, fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi cyflwyno **Datganiad** ger bron y Senedd i esbonio sut yr wyf wedi ystyried barn y Senedd a'i phwyllgorau a fynegwyd yn ystod y broses graffu ym misoedd Medi – Tachwedd 2020.

Mae cyhoeddi Cymru'r Dyfodol yn garreg filltir fawr yn hanes ein gwlad. Ni yw'r genedl gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyhoeddi cynllun datblygu cenedlaethol a byddwn yn ei ddefnyddio i wneud Cymru'n wlad iachach, gwyrddach, mwy llewyrchus a thecach.

Hoffwn ddiolch i chi a'ch pwyllgor am eich cyfraniad at ein helpu i lunio Cymru'r Dyfodol. Rwy'n falch y cefais ymateb yn bositif i fwyafrif llethol yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgorau sydd wedi cryfhau Cymru'r Dyfodol.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf: MA/KW/0704/21

Bethan Sayed AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

24 Chwefror 2021

Annwyl Bethan

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr yn dilyn y sesiwn craffu ar y gyllideb a fynychwyd gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 14 Ionawr. Isod, rhoddaf y wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd o ddiddordeb a godwyd gan Aelodau ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer y Gymraeg o fewn fy mhortffolio.

**Cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg**

Rhaid cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg er mwyn gweld mwy o ddysgwyr yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ystod pum mlynedd cyntaf gweithredu *Cymraeg 2050*, mae'r data yn dangos nad ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd yn erbyn y targedau â'r disgwyl, yn enwedig yn y sector uwchradd. Gallai fod sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys nad ydym yn syml yn recriwtio digon o athrawon dan hyfforddiant, neu nad oes digon o fyfyrwyr israddedig sy'n siarad Cymraeg ac sydd am addysgu ar ddod. Yn y pen draw, penderfyniad unigol yw dilyn gyrfa fel athro, a'n nod yw sicrhau bod addysgu yn yrfa ddeniadol a gwerth chweil yng Nghymru.

Rwy'n llwyr ymwybodol o'r angen i ddatblygu dull strategol byrdymor, tymor canolig a hirdymor o fynd i'r afael â phrinder athrawon cyfrwng Cymraeg, er mwyn cyflawni targedau *Cymraeg 2050*. Rydym eisoes yn gweithio ar rai camau byrdymor, fel y cwrs cyfnewid cynradd i uwchradd. Mae llythyr ar wahân gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg at y Pwyllgor yn amlinellu ein holl ymyriadau presennol yn y maes hwn, felly nid wyf wedi ailadrodd hynny yma.

Nid oes ateb cyflym ac mae angen inni weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion a darpar athrawon, i lunio'r strategaeth ar y cyd. Cefais gyfarfodydd cadarnhaol â Chomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i drafod eu priod awgrymiadau, a gwnaethom gytuno i barhau i gydweithio wrth symud ymlaen. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Cyngor y Gweithlu Addysg, Cydag,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgolion, darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg, ac mae angen i bob un ohonynt fod ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu cynllun 10 mlynedd a fydd yn mynd â ni i fyny at dargedau nesaf *Cymraeg 2050* yn 2031.

Nod y Cynllun Sabothol yw uwchsgilio'r gweithlu presennol i'w helpu i wella ei sgiliau Cymraeg a'i sgiliau methodoleg addysgu iaith, er mwyn addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg neu addysgu'n fwy hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod y Cynllun yn creu athrawon mwy hyderus sy'n siarad Cymraeg, nid yw hyn bob amser yn arwain at gynnydd yn nifer yr athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd yr athrawon sy'n dilyn y cyrsiau sylfaen, canolradd a 'Cymraeg mewn Blwyddyn' yn aros mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar y cyfan, a byddant yn chwarae rôl hanfodol wrth wella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu, er mwyn galluogi ein holl ddysgwyr i fod yn siaradwyr hyderus erbyn 16 oed.

Yn anffodus, bu oedi wrth werthuso'r Cynllun oherwydd COVID-19, ond caiff yr adroddiad ei gyhoeddi nawr ym mis Mawrth. Yna, byddwn yn ystyried sut i fwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion er mwyn sicrhau y gall y Cynllun barhau i gyflenwi dysgu proffesiynol i'r gweithlu presennol.

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Wrth i'r cynllun gweithredu ôl-16 uchelgeisiol gael ei gyhoeddi, rwy'n falch o fod wedi gallu darparu grantiau penodol ar gyfer prosiectau strategol, adnoddau, hyfforddiant a chymorth ar gyfer prentisiaethau i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ers i'r Coleg ehangu ei gylch gwaith i gynnwys y sector ôl-16, mae'n parhau i wneud cynnydd sylweddol ac mae wedi sefydlu strwythurau newydd mewn partneriaeth lawn â'r sector addysg bellach a'r sector prentisiaethau. Mae angen gwneud llawer mwy, ac mae'r cynllun gweithredu ôl-16 yn adlewyrchu fy ymrwymiad i sicrhau bod llwybrau cynnydd ieithyddol ar gyfer pobl ifanc pan fyddant yn gadael yr ysgol, sydd mor bwysig wrth inni gynllunio ar gyfer cyflawni *Cymraeg 2050*.

Yn 2020-21, mae'r Coleg wedi cael dros £604,000 tuag at gyflawni prosiectau mewn colegau, adnoddau ar gyfer meysydd â blaenoriaeth, mentrau prentisiaethau, a hyfforddiant ar gyfer y sector galwedigaethol. Yn fwyaf diweddar, rwyf wedi darparu £155,000 ychwanegol yn 2020-21 er mwyn i'r Coleg gyflawni tri phrosiect ychwanegol. Mae gen i bob ffydd yng ngallu'r Coleg i gynllunio ei adnoddau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, ac rwy'n gwbl ymrwymedig i helpu'r Coleg i gyflawni ei weledigaeth yn y sector ôl-16 ac yn wir yn y sector addysg uwch, er mwyn galluogi dysgwyr i gyflawni mwy o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog bob blwyddyn i gefnogi *Cymraeg 2050*.

**Prosiect y Gymraeg ym Mhatagonia**

Caiff Prosiect y Gymraeg ym Mhatagonia ei ariannu drwy BEL Ymchwil, Tystiolaeth a Rhyngwladol fy mhortffolio, sydd â chyllideb o £574,000 ar gyfer 2021-22, gyda £55,000 wedi'i neilltuo ar gyfer Prosiect y Gymraeg.

Mae Prosiect y Gymraeg wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan y British Council ers 1997, ac mae fy swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r British Council i glywed y newyddion diweddaraf am brosiectau. Fel rhan o'r prosiect, bydd tri athro o Gymru yn mynd i Batagonia bob blwyddyn i addysgu yn y tair ysgol ddwyieithog yno (rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr), ynghyd â chynnal dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion yn y gymuned, a gweinyddir rhwydwaith o Diwtoriaid Cymraeg lleol o Batagonia sydd hefyd yn gweithio fel cynorthwywyr addysgu yn yr ysgol a'r cymunedau Cymraeg.

Y llynedd, dechreuodd tri athro eu lleoliadau ym mis Chwefror, ond dychwelodd dau i Gymru ym mis Mai oherwydd COVID-19, gan gwblhau eu lleoliadau yn addysgu o bell o Gymru. Arhosodd y tiwtor Cymraeg i Oedolion ym Mhatagonia gan addysgu o bell tan fis Rhagfyr y llynedd.


O ganlyniad i COVID-19, ni chynhaliwyd ymgyrch recriwtio ar gyfer y tri lleoliad yn dechrau ym mis Chwefror 2021. Bydd y tiwtor Cymraeg i Oedolion ar gontract ar gyfer blwyddyn academaidd 2021, gan addysgu o bell o Gymru nes iddi allu dychwelyd i'r Ariannin yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae ffiniau'r Ariannin ar gau i wladolion tramor ac nid ydym yn gwybod pryd y bydd modd i'r tiwtor ddychwelyd.

Mae'r British Council a Phwyllgor Prosiect y Gymraeg wrthi'n ystyried opsiynau ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion dwyieithog Patagonia. Mae ysgolion yr Ariannin ar gau ar hyn o bryd, a hynny tan fis Gorffennaf 2021 o leiaf, felly byddai unrhyw ddarpariaeth o bell o Gymru. Ceisir barn rhanddeiliaid ym Mhatagonia a Chymru, ynghyd â goblygiadau cytundebol yr athrawon sy'n gweithio o'r DU yn hytrach na'r Ariannin. Gobeithio y bydd gennym ddarlun cliriach o'r sefyllfa yn fuan, pan wneir penderfyniad ynghylch a fydd yn bosibl addysgu o bell yn ystod 2021.

Mae addysgu ar-lein eleni wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu cyrhaeddiad addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol y tu allan i Batagonia ac i rannau eraill o'r Ariannin, a hyd yn oed Ogledd America. I'r gwrthwyneb, nid yw'r myfyrwyr mewn ardaloedd gwledig neu lai breintiedig wedi gallu achub ar gyfleoedd addysgu digidol, felly cydnabyddir pwysigrwydd addysgu wyneb yn wyneb, a chyflwynir dull cyfunol fel rhan o Brosiect y Gymraeg yn y dyfodol.

Hyderaf y bydd yr ymatebion hyn o fudd i allu cwblhau'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

29 Ionawr 2021

Annwyl Kirsty,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-2022**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 14 Ionawr, bu'r Aelodau yn craffu ar y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ynghylch dyraniadau'r gyllideb sy'n hybu ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ystod ein trafodaeth gyda'r Gweinidog, cododd yr Aelodau faterion ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer y Gymraeg sy'n rhan o'ch portffolio.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn ymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a pham na chyrhaeddwyd y targedau ar gyfer cynyddu'r nifer, fel y nodir yn strategaeth a chynllun gweithredu Cymraeg 2050. Gwnaeth y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg gydnabod bod problem benodol wrth geisio recriwtio athrawon ysgolion uwchradd. Dywedodd wrth y Pwyllgor eich bod wedi cael cyfarfodydd cadarnhaol gyda Chomisiynydd y Gymraeg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i drafod y cynlluniau ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg a chefnogi'r holl athrawon i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau rydych chi wedi'u cael â'r ddau sefydliad, ac unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt? Yn benodol, mae gennym ddiddordeb yn y gwariant o £3.65 miliwn ar y cynllun sabothol. Rwy'n deall bod adroddiad gwerthuso'r cynllun ar fin cael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Chwefror. A allwch wneud sylw ar sut y byddwch yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad i gynyddu cyfranogiad? A oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r targedau ar gyfer y cynllun hwn yng ngoleuni'r gyfradd cyfranogiad hyd yn hyn?

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cysylltu â mi yn uniongyrchol i nodi nad yw wedi cael unrhyw gyllid ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-16. Er mwyn eu galluogi i wneud y gwahaniaeth sydd ei angen er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi awgrymu buddsoddiad o £800,000 o gyllideb Addysg Bellach y Llywodraeth ar gyfer 2021-22, gan gynyddu hyn bob blwyddyn wedi hynny (£1.4 miliwn yn 2022-23, £2.5 miliwn yn 2023-24 a £3.2 miliwn yn 2024-25). A allwch gadarnhau bod y cyllid sydd ganddo yn ddigonol er mwyn gweithredu'r cynllun y gwnaethoch chi fel Gweinidog ei lansio yn 2018 i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector Addysg Bellach?

Yn olaf, a allwch roi sylwadau ar yr heriau sy'n wynebu Prosiect yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia, a statws dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r prosiect mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill ar hyn o bryd? Pa sgyrsiau ydych chi'n eu cael gyda'r partneriaid cyflenwi i sicrhau bod y cynllun yn parhau neu'n addasu yn ystod yr ansicrwydd ynghylch teithio rhyngwladol?

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

At ddibenion llywio gwaith y Pwyllgor a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 2 Mawrth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid sy'n craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

**Bethan Sayed AS**

**Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/0708/21

Bethan Sayed AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

24 Chwefror 2021

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr yn dilyn sesiwn graffu Cyllideb Ddrafft 2021-22 ar 14 Ionawr i drafod dyraniadau'r gyllideb sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. Fel y cytunwyd, isod rhoddir manylion pellach am y materion a godwyd gan y Pwyllgor.

**Targedau ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg**

Rhaid cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg er mwyn gweld mwy o ddysgwyr yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ystod pum mlynedd cyntaf gweithredu *Cymraeg 2050*, mae'r data yn dangos nad ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd yn erbyn y targedau â'r disgwyl, yn enwedig yn y sector uwchradd.

Ymhlith ein hymyriadau presennol sy'n anelu at gefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg mae'r canlynol:

- menter Iaith Athrawon Yfory (IAY) sydd â chyllideb flynyddol o tua £0.5m. Bu ar gael i athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg dan hyfforddiant ers 2018. Cynigir cymhelliant o £5,000 a delir mewn dau randaliad o £2,500 yr un:
    - mae'r cyntaf o fewn blwyddyn i ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC);
    - mae'r ail o fewn blwyddyn i gwblhau'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus.

  Hyd yn hyn, mae 154 o athrawon wedi derbyn yr arian hwn yn ystod blynyddoedd academaidd 2018/19 a 2019/20. Disgwylir yr hawliadau cyntaf ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 dros y misoedd nesaf.

- Mae rhaglenni diwygiedig Addysg Gychwynnol i Athrawon bellach yn rhoi cymorth Cymraeg i bob athro dan hyfforddiant fel y gall feithrin ei hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, neu feithrin ei sgiliau i addysgu Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ac mae'n seiliedig ar fframwaith cymhwysedd sgiliau Cymraeg cyffredin i ymarferwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Datblygwyd llwybrau amgen newydd i addysgu sy'n galluogi athrawon dan hyfforddiant i astudio'n rhan-amser ar y cyd â'u hymrwymiadau eraill, ochr yn ochr â'u hyfforddiant neu drwy lwybr cyflogedig. Y gobaith yw y bydd y rhaglenni newydd hyn yn denu gweithlu addysgu mwy amrywiol, a'r rhai sydd am newid gyrfa. Mae'r llwybrau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ymgyrch ddigidol genedlaethol *Addysgu Cymru* ar gyfer grwpiau penodol iawn o ddarpar athrawon sydd wedi'u nodi, gan gynnwys myfyrwyr israddedig sy'n siarad Cymraeg. Caiff tua £0.250m ei wario ar yr ymgyrch hon bob blwyddyn.

- Eir ati i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac amrywiaeth o randdeiliaid i hyrwyddo Cymraeg fel pwnc Safon Uwch er mwyn sicrhau bod digon o raddedigion Cymraeg ar gael, a all ddilyn gyrfa fel athrawon. Buddsoddwyd cyfanswm o £0.145m yn y gwaith hwn yn ystod 2019-20 a 2020-21, ond mae pandemig COVID-19 wedi amharu ar hyn.

- Mae rhaglen gyfnewid ar waith i gynorthwyo athrawon cynradd i addysgu mewn ysgolion uwchradd. Darperir cyllideb flynyddol o £0.5m ar gyfer y rhaglen hon. Mae hon yn rhaglen benodol ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg. Yn ystod 2020/21, mae 10 unigolyn sy'n cael cymorth i addysgu amrywiaeth o bynciau uwchradd, gan gynnwys mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg.

- Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg – mae gan y cynllun ddau nod: meithrin sgiliau Cymraeg ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn iddynt addysgu Cymraeg yn hyderus fel rhan o'r cwricwlwm; a gwella sgiliau Cymraeg ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn meithrin sgiliau llythrenedd Cymraeg dysgwyr. Mae cyllideb flynyddol o £3.65m ar gael sy'n talu am gyrsiau, costau cyflenwi ysgolion a chostau teithio ychwanegol yr ymarferwyr. Bydd yr adroddiad gwerthuso bellach yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth yn sgil oedi oherwydd COVID-19.

- Darperir cefnogaeth gan gonsortia rhanbarthol sy'n cynnwys amrywiaeth o gyrsiau iaith a methodoleg byr i ymarferwyr, datblygu adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu, a chefnogi'r Siarter Iaith. Dyrannwyd cyfanswm o £2.7m i'r rhanbarthau yn 2020-21 a rhagwelwn y bydd yr un lefel o gyllid ar gael yn 2021-22.

- Gwneir gwaith ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu cyrsiau ar-lein i ymarferwyr, arweinwyr a llywodraethwyr fel y gallant ddysgu Cymraeg neu wella eu Cymraeg. Mae'r cyrsiau wedi cael eu teilwra ar gyfer y sector addysg. Cafodd y gwaith hwn ei wneud gan ddefnyddio cyllideb y Ganolfan Genedlaethol.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd diwygiadau o fewn addysg gychwynnol i athrawon, cyflwynwyd y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, adolygwyd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a pharhawyd i ddatblygu'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 ac addysg uwch.

Wrth symud ymlaen, mae'r Gweinidog Addysg a'i swyddogion yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynllun 10 mlynedd a fydd yn mynd â ni i fyny at dargedau nesaf *Cymraeg 2050* yn 2031. Bydd y cyfnod 10 mlynedd hwn yn cyd-daro â chylch 10 mlynedd Cynlluniau Strategol newydd Cymraeg mewn Addysg, gan ein galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gan awdurdodau lleol am leoliad ysgolion neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg newydd, ochr yn ochr â data gan y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion a'r myfyrwyr israddedig sy'n siarad Cymraeg sydd ar ddod er mwyn gwella'r gwaith o gynllunio ar gyfer cynyddu

nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Nid oes ateb cyflym a byddwn yn gweithio gydag ysgolion, darpar athrawon a rhanddeiliaid eraill i lunio'r strategaeth, a datblygiadau prif ffrwd, er mwyn cefnogi'r cynnydd yn nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Byddwn ni a'r Gweinidog Addysg yn croesawu unrhyw awgrymiadau sydd gan y pwyllgor am ffyrdd o gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg.

**Addysg Ôl-16**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cymryd ei gyfrifoldebau estynedig o ddifrif, ac mae eisoes wedi cymryd camau breision wrth gynnal prosiectau yn yr holl golegau addysg bellach yn y meysydd â blaenoriaeth. Mae'n hynod bwysig sicrhau bod darpariaeth ôl-16 alwedigaethol ar gael, lle y gall dysgwyr barhau â'u haddysg a'u hyfforddiant yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, a chynnal eu sgiliau Cymraeg, er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Ers ehangu cylch gwaith y Coleg, rwyf wedi cefnogi Cynllun Cenhadon pob coleg a'r sector prentisiaethau er mwyn hyrwyddo a galluogi dysgwyr i siarad Cymraeg a theimlo'n hyderus am eu sgiliau yn y gweithle ac yn eu cymunedau. Rwyf wedi gweld yn uniongyrchol sut mae dysgwyr yn cael budd o'r Cynllun Cenhadon, ac ymyriadau'r Coleg. Gwneir cynnydd wrth brif ffrydio'r Gymraeg mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, a byddaf yn parhau i drafod y mater hwn â'r Gweinidog Addysg.

**Cymorth Cymraeg i rieni newydd**

Cynigir sesiynau 'Fi a fy mabi' drwy raglen 'Cymraeg i Blant' i rieni newydd a darpar rieni, gan gynnig cyfres o sesiynau sy'n anelu at gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd a chefnogi taith y plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg.

Ers diwedd mis Mawrth 2020, bu modd i'r cymorth a gynigir drwy 'Cymraeg i Blant' barhau, gan gynnal gweithgareddau ar-lein yn unig. Cafodd sesiynau 'Fi a fy mabi' eu datblygu a'u cyflwyno'n benodol yn ystod y pandemig er mwyn cynnig cymorth drwy'r model hwn. Rhwng mis Mehefin a diwedd mis Rhagfyr 2020, cynhaliwyd 159 o sesiynau 'Fi a fy mabi' unigol, gyda chyfanswm o 476 o rieni yn cymryd rhan.

Caiff y sesiynau hyn eu hyrwyddo drwy dudalennau Facebook lleol 'Cymraeg i Blant', yn ogystal â thudalennau grwpiau eraill ar y cyfryngau cymdeithasol fel 'Bumps to Babies'. Anfonir gwybodaeth am y grwpiau hyn, yn ogystal â'r cymorth ehangach a gynigir drwy raglen 'Cymraeg i Blant', at bob Ymwelydd Iechyd/ Rheolwr Bydwragedd, yn ogystal â Swyddogion Iaith Byrddau Iechyd.

Bu'n heriol hyrwyddo sesiynau 'Cymraeg i Blant' drwy Ymwelwyr Iechyd mewn rhai ardaloedd oherwydd y pandemig, am fod rhai ohonynt wedi gorfod newid rolau er mwyn helpu i drechu'r pandemig. Mae'r sefyllfa hon yn parhau i ryw raddau, gyda rhai ymwelwyr iechyd yn rhan o'r rhaglen frechu.

Bu'r cyfnod ers mis Mawrth 2020 yn heriol, ond mae hefyd wedi cynnig cyfle i ddatblygu'r cymorth a gynigir i rieni ymhellach. Mae sesiynau wyneb yn wyneb yn dal i fod yn elfen bwysig o'r cymorth a all gael ei gynnig drwy'r rhaglen, a byddant yn ailddechrau cyn gynted ag y bydd hawl gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd y cymorth ar-lein a ddatblygwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn parhau i fod yn rhan annatod o'r cymorth estynedig a gynigir drwy 'Cymraeg i Blant'.

**Comisiynydd y Gymraeg**

Yn dilyn penodi Aled Roberts ar 1 Ebrill 2019, cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ym mis Awst 2019. Mae Atodiad 1 i'r Memorandwm yn amlinellu'r ffordd y rhennir cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd. Rwy'n cyfarfod â'r Comisiynydd bob chwarter i drafod rhaglenni gwaith a blaenoriaethau. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng fy swyddogion i a swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau bod y ffordd y caiff cyfrifoldebau eu rhannu yn glir, ac na ddyblygir ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sectorau penodol.

Yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, nodir y bydd y ffordd y caiff cyfrifoldebau eu rhannu yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ni lwyddwyd i gynnal yr adolygiad cyntaf o'r fath oherwydd y pandemig. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio gobeithio, gallwn ailddechrau trafod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Gall hyn gynnwys pa gyrff sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni mathau penodol o waith, gyda phwyslais arbennig ar weithredu'r argymhellion yn *Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg*, sef adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar.

Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn heriol i bob sefydliad, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Rwy'n falch ein bod wedi llwyddo i gynnal y gyllideb refeniw o £3.207m yn 2021-22, ac rwy'n dal yn hyderus y bydd y Comisiynydd yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau statudol o fewn y gyllideb hon. Byddaf yn parhau i gynnal trafodaethau rheolaidd â'r Comisiynydd, a fydd yn cynnwys monitro'r ffordd y mae'r Comisiynydd yn parhau i gyflawni ei swyddogaethau o dan Fesur y Gymraeg.

Mae'r pwysau ar gyllidebau o ganlyniad i'r pandemig wedi gorfodi pob un ohonom i weithio'n wahanol, ac rwy'n ddiolchgar i'r Comisiynydd a'i staff am ateb yr heriau. Fel pob corff, mae'r profiad o weithio drwy COVID-19 a'r cyfyngiadau symud wedi ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiynydd ddod o hyd i ffyrdd amgen o weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r Comisiynydd yn fodlon y gall gynnal cydberthynas effeithiol â chyrff eraill mewn ffyrdd rhithwir, yn hytrach na chynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb bob tro. Yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2021-22, noda'r Comisiynydd y bydd y newidiadau hyn i ffyrdd o weithio yn arbed tua £45,000 mewn costau teithio (55%) o 2021-22 ymlaen. Nid yw hyn yn cyfrif am y ffaith bod cyfarfodydd rhithwir hefyd yn galluogi staff i ddefnyddio eu hamser yn fwy effeithlon, drwy leihau eu hamser teithio.

Mae'r Comisiynydd yn parhau i drafod y gwaith TG ychwanegol a achoswyd gan yr ymosodiad seiber â'i gontractwyr TG allanol. Yn 2020-21, cafodd y Comisiynydd £385,000 mewn cyllid cyfalaf i uwchraddio ei seilwaith TG; mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl, ond bu'n rhaid ail-flaenoriaethu'r gwelliannau i'w hariannu gan y buddsoddiad hwnnw yn sgil yr ymosodiad seiber. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi cael £30,000 mewn cyllid cyfalaf ar gyfer 2021-22 i ddatblygu gwefan newydd ar lwyfan mwy modern. Hyd nes y bydd y Comisiynydd yn gallu neilltuo'r costau ychwanegol a achoswyd gan yr ymosodiad seiber, ni fyddwn yn gallu cwblhau nac ystyried unrhyw ofynion ychwanegol o ran cyllid cyfalaf.

O ran yr amserlen adfer, mae contractwr TG allanol y Comisiynydd wedi datblygu system TG newydd gyda chymorth ac arweiniad swyddogion o Lywodraeth Cymru. Bu'r system newydd ar waith ers cyn y Nadolig. Ni wnaeth yr ymosodiad seiber effeithio ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol na system ffôn y Comisiynydd, ac maent wedi bod yn weithredol drwy gydol y cyfnod. Cafodd gwefan y Comisiynydd ei hanalluogi'n llwyr gan yr ymosodiad seiber ac mae'r Comisiynydd wrthi'n datblygu gwefan newydd. Mae'r gwaith o adfer data a gollwyd yn ystod yr ymosodiad seiber hefyd yn parhau.

**Cyllid ychwanegol mewn ymateb i COVID-19**

Bydd unrhyw benderfyniad i ddarparu cyllid ychwanegol yn seiliedig ar y dystiolaeth o angen. Rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol ynghylch yr heriau parhaus maent yn eu hwynebu yn sgil COVID-19.

Mae'r Urdd wedi cyflwyno cynnig ar gyfer ailadeiladu gwasanaethau'r mudiad, ac mae hefyd wedi rhannu'r heriau a wynebir yn y flwyddyn ariannol bresennol. Felly, rydym wedi darparu cymorth ychwanegol o £1.3m i'r Urdd i'w helpu i leddfu'r pwysau ariannol a wynebir yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Ar 26 Ionawr cyhoeddodd yr Eisteddfod Genedlaethol y byddai Eisteddfod Genedlaethol 2021 yn cael ei gohirio tan 2022. Yn sgil y cyhoeddiad hwn, rydym wedi gallu darparu cyllid ychwanegol o £190,000 yn y flwyddyn ariannol hon i helpu gyda chostau seilwaith creu gŵyl gyfunol yn 2021, gan adeiladu ar ddigwyddiad llwyddiannus AmGen yn 2020.

Hyderaf y bydd yr ymatebion hyn o fudd i allu cwblhau'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

29 Ionawr 2021

Annwyl Eluned,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-2022**

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 14 Ionawr 2021 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Yn y cyfarfod, fe wnaethoch gytuno i ddarparu rhagor o fanylion am nifer o faterion. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn erbyn 2 Mawrth, cyn y ddadl ar y Gyllideb ddrafft yn y Cyfarfod Llawn.

**Targedau ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg**

Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg. Gwnaethoch sôn mai bwriad y Cynllun Sabothol yw gwella sgiliau ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, a'i fod yn cael swm o £3.65 miliwn, gyda mynediad at gyllid ar gyfer consortia rhanbarthol i wella safonau. Dywedoch hefyd eich bod yn gobeithio cyhoeddi adroddiad gwerthuso'r cynllun ym mis Chwefror.

Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch gynnig anfon mwy o fanylion atom am eich strategaeth i gynyddu nifer yr athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. A allwch gynnwys y gwariant ar y rhaglen ac unrhyw asesiad o pam nad yw'r ymyriadau cyfredol wedi arwain at y niferoedd sydd eu hangen i gyrraedd targedau Cymraeg 2050 hyd yn hyn?

**Addysg ôl-16**

Pan wnaethom ofyn i chi ynglŷn â'r cyllid i ddatblygu darpariaeth addysg Gymraeg yn y sector ôl-16, dywedoch nad yw hyn yn rhan o'ch portffolio, ond yn hytrach yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Addysg. Efallai bod hynny'n wir, ond rydych chi wedi ymddangos gerbron y pwyllgor hwn ar sawl achlysur gan bwysleisio pwysigrwydd *prif ffrydio'r* Gymraeg ar draws holl adrannau a chyllidebau Llywodraeth Cymru. Roeddem yn siomedig felly nad oeddech yn gallu rhoi ateb mwy ystyrlon a sylweddol i ni mewn perthynas â'r mater pwysig hwn.

Byddem yn eich annog i barhau i gynnal trafodaethau trylwyr gyda'r Gweinidog Addysg ynglŷn â phwysigrwydd hanfodol datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach. Er mwyn eu galluogi i wneud y gwahaniaeth sydd ei angen er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi awgrymu buddsoddiad o £800,000 o gyllideb Addysg Bellach y Llywodraeth ar gyfer 2021-22, gan gynyddu bob blwyddyn wedi hynny (£1.4 miliwn yn 2022-23, £2.5 miliwn yn 2023-24 a £3.2

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

miliwn yn 2024-25). Byddem hefyd yn eich annog i ymgysylltu â'r sector i sicrhau cynnydd ar frys o ran yr agwedd hon ar addysg. Ar gyfer y rhai nad ydynt yn aros ymlaen am addysg chweched dosbarth, mae angen darpariaeth cyfrwng Gymraeg ehangach ar draws colegau Cymru a thrwy gynlluniau prentisiaeth, ac maent yn haeddu hynny hefyd.

**Cefnogaeth ar gyfer y Gymraeg i famau newydd**

Fe sonioch chi yn ystod y cyfarfod fod cefnogaeth ar gael i famau newydd a babanod drwy'r rhaglen ['Fi a fy mabi'](). A allwch nodi sut mae'r rhaglen yn cael ei hyrwyddo i famau newydd ac a ydych chi'n gweithio gydag ymwelwyr iechyd i'w hyrwyddo? A yw'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo'r rhaglen hon wedi cael eu haddasu yn sgil pandemig y coronafeirws?

**Comisiynydd y Gymraeg**

Yn ystod sesiwn graffu'r Pwyllgor ynghylch ei Adroddiad Blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar, amlinellodd y Comisiynydd y pwysau ariannol ar ei swyddfa a'r llwyth gwaith presennol:

> 'Mae'r gwaith yn cynyddu ac mae maint y corff yn aros yn ei unman neu'n gostwng... 'Mae yna gyfnodau yn ystod y flwyddyn lle rydym ni wedi gorfod cadw swyddi'n wag o achos y sefyllfa gyllidebol, ac mae hynny wedi ychwanegu mewn rhai mannau at lwyth gwaith staff. Ac mae gan hynny, yn y pen draw, effaith ar effeithiolrwydd aelodau staff.'

Fe sonioch chi y byddai Prosiect 2050 Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â rhai meysydd gwaith sydd o fewn cylch gwaith y Comisiynydd ar hyn o bryd a fyddai'n rhyddhau adnoddau. A allwch egluro pa agweddau ar waith y Comisiynydd yr ydych yn rhagweld y bydd Prosiect 2050 yn ymgymryd â hwy, a pha drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'r Comisiynydd am y datblygiad hwn?

Pan roddodd y Comisiynydd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 1 Hydref 2020, dywedodd:

> 'Mae'r gwaith yn cynyddu ac mae maint y corff yn aros yn ei unman neu'n gostwng. Fe wnes i gydnabod hynny llynedd yn y rhagamcanion rhoddais i mewn i'r Llywodraeth. Dwi'n meddwl bod y rhagamcanion yn realistig.'

Dywedoch eich bod yn cael trafodaethau gyda'r Comisiynydd yn rheolaidd i sicrhau y gall gyflawni ei swyddogaethau o dan Fesur y Gymraeg. O ystyried ei sylw i'r Pwyllgor, ydych chi'n hyderus bod gan Gomisiynydd y Gymraeg ddigon o adnoddau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol?

A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Comisiynydd am yr arbedion a ragwelir sy'n deillio o weithio o bell, ac os felly, pa effaith fydd hyn yn ei chael ar ei adnoddau?

Yn dilyn yr ymosodiad seiber ar y system TG a ddefnyddir gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, cytunwyd y gallai fod angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol. A allwch gadarnhau a yw'r Comisiynydd wedi gofyn am arian ychwanegol i ddelio ag effaith yr ymosodiad seiber ac o ble y daw'r cyllid hwn, pe byddech yn cytuno i'w ddarparu? Bydd difrifoldeb yr ymosodiad yn amlwg yn golygu y bydd yn cymryd amser i'w ddatrys, felly a allwch roi syniad o unrhyw ddyddiadau y gobeithiwch y bydd swyddfa'r Comisiynydd yn gallu gweithredu fel yr arfer?

**Cyllid ychwanegol ar gyfer pwysau yn ymwneud â Covid**

Yn ystod y cyfarfod, fe sonioch hefyd y byddwch yn gwneud cynnig am arian o'r gronfa COVID ganolog i gefnogi'r Urdd os bydd angen. A allwch chi ddweud wrth y Pwyllgor beth fydd y meini prawf y byddwch yn eu defnyddio fel sail i’ch penderfyniad o ran pryd i wneud cais am y gronfa? Ydych chi'n ystyried gwneud cais i'r gronfa ganolog i gefnogi unrhyw sefydliadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel yr Eisteddfod Genedlaethol, yn dilyn y penderfyniad i ohirio’r digwyddiad eleni?

At ddibenion llywio gwaith y Pwyllgor a’r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb erbyn 2 Mawrth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid sy’n craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

Yn gywir,




**Bethan Sayed AS**

**Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon